

# Amodau a Thelerau Tystiolaeth ar gyfer yr Arolwg Cydraddoldeb Cenedlaethol (EVENS)

## 1. Derbyniad Cyffredinol

Trwy fwrw ymlaen gyda'r Dystiolaeth ar gyfer yr Arolwg Cydraddoldeb Cenedlaethol (EVENS), rydych chi'n cadarnhau eich bod yn derbyn bod yn rhaid i chi fodloni'r Amodau a Thelerau hyn ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd yn unol â chyngor MORI a Market Opinion Research International Limited ("Ipsos MORI" neu "Ni") a Phrifysgol Manceinion. Rydym yn cadw'r hawl i addasu neu newid yr Amodau a Thelerau hyn.

## 2. Gofynion Defnyddwyr ar gyfer cymhwysedd i dderbyn taleb rhodd o £ 10 (a elwir yma yn 'gymhelliant') ar gyfer cymryd rhan yn yr arolwg hwn:

- I fod yn gymwys rhaid i chi gwblhau'r arolwg EVENS yn llawn (a ddylai gymryd tua 30 munud). Nid yw cwblhau'r arolwg cofrestru yn unig (a fydd yn pennu os ydych yn gymwys ar gyfer y prif arolwg ac yn parhau tua 5 munud) yn eich gwneud yn gymwys i dderbyn yr ysgogiad.
- Mae wedi ei gyfyngu i unigolion 18 oed neu hŷn, sy'n preswyllo ym Mhrydain Fawr.
- Mae Ipsos MORI yn cadw'r hawl i wrthod dyfarnu ysgogiadau am gymryd rhan mewn arolwg heb roi rheswm.
- Gallwch gymryd rhan yn yr arolwg am ddim ac mae'n bersonol i chi. Ni allwch drosglwyddo'r ysgogiad i unrhyw un arall.
- Ni fyddwch yn gymwys i dderbyn unrhyw ysgogiad dan yr Amodau a Thelerau hyn os:
  - Ydych chi eisoes wedi cwblhau'r arolwg hwn. Bydd arolygon dyblyg yn cael eu heithrio ac ni fydd cyfranogwyr yr arolwg yn gymwys ar gyfer unrhyw ysgogiadau.
  - Os byddwch yn darparu data twyllodrus neu anghywir, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn ysgogiad. Mae penderfyniad o'r fath yn gyfan gwbl yn ôl doethineb unigol Ipsos MORI.
- Gallwch weld polisiau preifatrwydd yr arolwg a chael rhagor o wybodaeth ar yr ymchwil yma a sut fydd y data a rowch yn cael ei ddefnyddio trwy fynd i dudalen gymorth arolwg EVENS: [www.evenssurveyinfo.ipsos-mori.com](http://www.evenssurveyinfo.ipsos-mori.com)

## 3. Atebolrwydd

- I'r fath raddau ag y mae'r gyfraith yn caniatáu, ni fydd Ipsos MORI yn atebol am unrhyw golledion, costau na threuliau (yn cynnwys colledion, costau neu iawndal anuniongyrchol, canlyniadol neu ddamweiniol) sut bynnag y'i hachosir, yn deillio o gymryd rhan yn neu gwblhau'r arolwg dan yr Amodau a Thelerau hyn.

## 4. Ysgogiadau

Darperir yr ysgogiad ar gyfer yr arolwg hwn yn unol â'r Amodau a Thelerau hyn a Rheoliadau'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS) ar gyfer gweinyddu ysgogiadau, y gellir gweld rhagor o fanylion amdanynt yma:

<https://www.mrs.org.uk/pdf/Regulations%20for%20Incentives%20and%20Prize%20Draws%20July%202015.pdf> ]

## **5. Dolenni i wefannau eraill**

Gall yr arolwg ddarparu dolenni i wefannau eraill neu adnoddau ar-lein. Gan nad oes gan Ipsos unrhyw reolaeth dros safleoedd ac adnoddau o'r fath, ni all Ipsos dderbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd ar gyfer y safleoedd neu adnoddau hynny. Ni all Ipsos warantu argaeledd safleoedd neu adnoddau allanol o'r fath, ac nid yw Ipsos MORI yn ardystio unrhyw gynnwys, hysbysebion, cynnyrch, cwcis, tagiau gwefan nac unrhyw ddeunyddiau eraill sydd ar neu ar gael gan safleoedd neu adnoddau o'r fath.

Rydych chi'n cydnabod ac yn cytuno na fydd Ipsos MORI, yn ddarostyngedig i amod 3 yr Amodau a Thelerau hyn, yn gyfrifol nac yn atebol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am unrhyw ddifrod neu golled a achoswyd neu a honnir i fod wedi ei achosi gan neu mewn perthynas â defnydd o neu ddibyniaeth ar unrhyw gynnwys, nwyddau neu wasanaethau o'r fath sydd ar gael ar neu trwy unrhyw safle neu adnodd o'r fath.

## **6. Cyfraith ac Awdurdodaeth Llywodraethol**

Mae'r Amodau a Thelerau hyn wedi eu llywodraethu gan gyfreithiau Cymru a Lloegr, ac yn amodol i awdurdodaeth lwy'r llysoedd Cymru a Lloegr.

## **7. Cyswllt Ipsos MORI**

Gallwch gysylltu â thîm Ipsos MORI trwy anfon e-bost at [evenssurvey@Ipsos-MORI.com](mailto:evenssurvey@Ipsos-MORI.com)

Neu, gallwch hefyd gysylltu â nhw trwy ysgrifennu at:

EVENS Survey (20-089809-01)  
Ipsos MORI  
3 Thomas More Square  
Llundain E1W 1YW